


GWANWYN 2024
RHIF 28
ubc.cymru

UBC
BUW

# Y Negesydd

**ESGYN: Gobaith ar gyfer cenhedlaeth newydd**
Gweinidogaeth ar y mynydd
Cerdded gyda Zimbabwe
a mwy...

# GAIR golygyddol

GWANWYN 2024

## CYNNWYS

RHIFYN 28


1 Clawr
2 Gair Golygyddol
3 Cenhadaeth: Esgyn
4 Gweinidogaeth ar ben y mynydd
5 CERDDED! Talentau Gobaith
6 Newyddion UBC
7 Newyddion ar draws y byd
8 Dod i nabod... Rev. Rob Saunders



*Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater*


***Mae Cymru yn enwog am ei mynyddoedd.** Fel merch ifanc yn mynd ar wyliau teulu i Sir Benfro, roedd mynyddoedd y Preseli yn ymddangos yn enfawr i fi – nes i fi ymweld ag Eryri! Roeddwn i'n caru mynydda wrth dyfu, ac mae hynny dal yn wir. Agorwyd fy llygaid i diroedd pellach yn y blynyddoedd diwethaf (nawr fy mod i yn briod â dyn o'r India, mae hyd yn oed fy synnwyr o fynyddoedd uchel Cymreig wedi eu hail-ddiffinio!), ond bydd y mynyddoedd Cymreig o hyd yn meddu ar le arbennig yn fy nghalon...*



Mae cwrdd â Duw yn aml yn cael ei ddisgrifio fel profiad 'ben mynydd', ac mae'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn llawn straeon am bobl Dduw yn cwrdd ag E ar fynyddoedd: o'r Israeliaid yn cwrdd â Duw ar Fynydd Sinai, i'r disgyblion yn gweld gogoniant Iesu ar fynydd y Trawsnewidiad.

Mae mynyddoedd yn cael eu cysylltu gyda mawredd, a phrofiadau sydd fel arfer y tu hwnt i'n gafael, ond 'rydym ni o dro i dro yn gallu eu profi ar adegau arbennig. Rydw i'n credu bod Duw eisiau i bob un ohonom ni gwrdd ag E mewn 'profiadau ben-mynydd', a bod y rhain yn gallu bod yn llai anghyffredin nag yn ni'n disgwyl. Yn y rhifyn hwn o'r Negesydd, rydym ni'n darllen am sawl profiad 'ben mynydd': adrodda Tim Moody hanes 'Esgyn' ar dudalen 3, a gwelwn sut yr oedd hwn yn fath o brofiad 'ben mynydd' i'r bobl ifanc a ddaeth, a sut ysbrydolwyd y fenter gan y syniad o gwrdd â Duw ar ben 'y mynydd'. Ar dudalen 4, darllenwn stori Nigel Cooke wrth iddo gyfarfod â phresenoldeb Duw mewn ffordd arbennig ar fynydd go iawn yn Ne Cymru.

Rydw i'n meddwl bod Duw yn caru cwrdd â ni ar y 'mynyddoedd' hyn. Mae Duw'n ein galw i fynd yn uwch i dir Ei Deyrnas (Eff 2:6, Col 3:2, Ese 40:32), ble mai sancteiddrwydd, bywyd buddugoliaethus, a chariad aberthol sy'n gynhenid. Fel y dywed Paul, rydym ni'n cael ein 'trawsffurfio o ogoniant i ogoniant' wrth i ni dyfu ynddo Fe (2 Cor 3:18). Ac eto, yr Arglwydd hwn yw'r un Iesu sydd yn dod i ganol dyffrynnoedd dwfn dioddefaint gyda ni. Mae fy nheulu wedi cael ychydig o brofiadau 'dyffryn' yn y flwyddyn ddiwethaf – mae 'trysorau y tywyllwch' (Ese 45:3) a ddarganfuwyd yn yr amserau hyn wedi bod yn hynod o werthfawr.

Yn 'Newyddion ar draws y Byd' ar dud. 6, darllenwn am y modd y mae Duw wedi cryfhau ein brodyr a chwiorydd yn Wcráin, ac yn Israel / Gaza trwy galedi ofnadwy. Yn Zimbabwe, clywn am 'ddyffryn' profiadau cymunedau sydd ymhlith y rhai effeithiwyd waethaf gan Newid Hinsawdd (tud.5), a chyfle i gerdded gyda nhw, mewn ffordd ffisegol a symbolaidd. P'un ai eich bod yn darganfod eich hunain ar 'ben y mynydd' neu yn nyffrynnoedd dioddefaint a chaledi ar hyn o bryd, fy ngweddi yw y byddwch yn darganfod anogaeth yn y straeon hyn yn y Negesydd sydd yn siarad â'r naill brofiad a'r llall. Fy ngweddi hefyd yw y byddwch yn adnabod realiti y geiriau hyn sydd yn siarad am gael ein codi wrth inni geisio Duw a phwyso arno... "*Ond y mae'r rhai sy'n disgwyl wrth yr ARGLWYDD yn adennill eu nerth; y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio...*" (Eseia 40:31).

*Pob bendith,*

**Sioned Graves** (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

# CENHADAETH
## i Genhedlaeth Iau

***Eleni, lawnsiodd UBC fudiad ieuenctid newydd o'r enw Esgyn! Yn dechrau gyda phenwythnos ieuenctid, dyma* Tim Moody *yn rhoi cipolwg i ni o benwythnos cyntaf Esgyn a ddigwyddodd ym mis Chwefror, a sut roedd Duw ar waith yno...***

Yng nghymoedd De Cymru, y mae canolfan gweithgareddau preswyl, yr adnabyddir fel Canolfan Summit Rock UK. Yma cynhaliwyd penwythnos cyntaf Esgyn – y cyntaf o nifer, rydym ni'n gweddïo. Adeiladwyd Esgyn ar y gred bod Duw eisiau gwneud rhywbeth pwrpasol ymhlith pobl ifanc ein cenedl, gan ddefnyddio geiriau Duw i Moses o'r berth danllyd fel ysbrydoliaeth – *"Bydda i gyda ti. A dyma fydd yr arwydd clir mai fi wnaeth dy anfon di: Pan fyddi di wedi arwain y bobl allan o'r Aifft, byddwch chi'n fy addoli i ar y mynydd yma." (Ex 3:12-15).*

Gyda'r argyhoeddiad bod Duw wir ar waith yn y genhedlaeth hon, fe wnaeth criw bach ohonom ddod at ein gilydd i lawnsio Esgyn. Cyfrannodd lleisiau o Gymru benbaladr (yn Gymraeg ac yn Saesneg) at y weledigaeth, a'n harweiniodd ni i groesawu 32 o bobl ifanc mor bell â Sir Benfro i Dde Cymru ar gyfer y penwythnos. Ac am benwythnos cawson ni!

> *"A dyma fydd yr arwydd clir mai fi wnaeth dy anfon di..."*

Ar Ddydd Sadwrn, fe wnaethom ni fwynhau 6 awr o weithgareddau, gan gynnwys dringo un o waliau dringo uchaf y Deyrnas Unedig, saethyddiaeth, rhaffau uchel ac adeiladu tyrrau cewyll. Fe wnaeth y gweithgareddau roi cyfle i'r bobl ifanc brofi pethau nad oedden nhw wedi eu profi o'r blaen, a chaniatáu iddynt ddysgu gweithio fel tîm. Tra bod y gweithgareddau yn llawer iawn o hwyl, fe wnaethon nhw hefyd helpu i dorri lawr rhai o'r waliau y mae pobl ifanc yn aml yn eu teimlo wrth gymysgu gyda phobl newydd. Gwelwyd gwir werth y gweithgareddau yn yr amserau y daethon ni at ein gilydd ar gyfer y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod cyntaf ar Ddydd Gwener wrth gwrs ychydig yn chwithig, ond wrth i'r penwythnos fynd yn ei blaen ac i'r bobl ifanc ddod i adnabod ei gilydd, roedd hi'n rhyfeddol gweld Duw ar waith ymhlith y genhedlaeth hon.

> "Roedd hi'n rhyfeddol gweld Duw ar waith ymhlith y genhedlaeth hon..."

Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyfweliad gydag un o'r tîm (gan gynnwys un o'r cyfarwyddwyr o'r Ganolfan Summit), a chyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cyfnod o addoli, eto yn ddwyieithog ble yn bosib, a gwelwyd y newid yn y bobl ifanc y cliriaf yma wrth i fwy a mwy o leisiau gael eu hychwanegu at yr addoliad wrth i'r penwythnos fynd yn ei blaen. Roedd yna hefyd neges fer ymhob cyfarfod, yn edrych ar Pedr yn cerdded ar y dŵr, ac yn annog y bobl ifanc i ystyried sut y gallent 'hoelio eu llygaid ar Iesu'. Roedd y nosweithiau yn cynnwys siocled poeth, gemau, tân, ac (efallai!) ychydig o gwsg!

Ers Esgyn, rydyn ni wedi clywed straeon am y modd y mae'r bobl ifanc wedi archwilio eu taith ffydd eu hunain, edrych ar sut y gallent wneud mwy gyda'u heglwys, mynd i fwy o ddigwyddiadau ieuenctid, a hyd yn oed ystyried bedydd! Mae Duw ar waith yn y genhedlaeth hon!

*Bydd **digwyddiad nesaf Esgyn** yn digwydd ar yr 8fed o Fehefin, yn **'Momentum'** yng Nghaerfyrddin!* *(mwy ar dudalen 7)*










# GWEINIDOGAETH AR BEN Y MYNYDD

**Nigel Cooke** sy'n rhannu ei stori anhygoel am ddod i ffydd, o enwogrwydd rygbi lleol i gyfarfyddiad Pasg ar ben mynydd, a newidiodd ei fywyd yn llwyr...



"Fyddwn i ddim yn dweud fod gen i weinidogaeth arbennig i'r bois rygbi", esbonia Nigel, "ond gan fy mod i'n un ohonyn nhw fy hun - a'r mwyaf garw o gwmpas fan hyn mae'n debyg am gyfnod - mae'r berthynas yna'n golygu fy mod i'n gallu rhannu pethau ysbrydol gyda nhw."

Mae Nigel, sy nawr yn ei bumdegau, yn gallu edrych yn ôl dros sawl degawd o'i fywyd lle nad oedd yn dilyn Iesu o gwbl, er ei fod wastad wedi credu yn Nuw. Mae'n cofio'r blynyddoedd lle byddai'n gweithio, yn chwarae rygbi, yn meddwi ac yna'n chwilio am rywun i ymladd â nhw ar nos Wener. "Roedd fy nhriciau ar y cae rygbi yn enwog hefyd - roedd gen i enw drwg amdanyn nhw!"

Ond wedyn un Pasg, fe newidiodd y cyfan. "Ro'n i'n gorwedd ar fy ngwely ac roedd hi'r diwrnod cyn dydd Gwener y Groglith a dwi'n cofio llais llonydd, clir yn dweud wrtha i o nunlle: 'beth wyt ti'n mynd i'w wneud drosof fi yfory?'

"Rown i'n gwybod taw llais Duw oedd e, ac yn gynnar y bore wedyn dyma fi'n cychwyn allan am y mynydd lleol gydag un nod mewn golwg – codi croes i edrych dros y dyffryn." Fel roedd hi'n digwydd, cerddodd Nigel heibio i gartref ei frawd ac am ryw reswm roedd hwnnw allan ar stepen y drws er mor gynnar oedd hi. Aethon nhw i fyny gyda'i gilydd ac ar ôl codi'r groes bren, teimlodd arweiniad i weddïo ac i ddiolch i Dduw am yr hyn a wnaeth Iesu ar fynydd Calfaria ar ddydd Gwener y Groglith. "Roedden ni' yno mewn tawelwch ar ôl gweddïo, a doedd yr un ohonom ni yn beth fyddech chi'n ei feddwl amdano fel 'dynion crefyddol' ac yna dechreuodd fy mrawd ganu emyn hefyd. Roedd yna ryw awyrgylch o gylch y lle, chi'n gwbod? Ac yn hwyrach pan oedden ni'n cerdded nôl lawr y mynydd, edrychon ni'n ôl a gweld y ffigyrau yma mewn gwyn o gwmpas y groes - ac wedyn roedden nhw wedi mynd."

Ddeufis yn ddiweddarach, trawyd ei frawd yn sâl a bu farw'n sydyn. "Alla i ddim gwybod.... ond dydw i ddim yn meddwl taw cyd-ddigwyddiad, o edrych yn ôl, oedd bod Duw wedi ei arwain at y profiad hwnnw gyda fi adeg y Pasg mor fuan cyn iddo farw. Mae'n rhaid i mi ymddiried bod Duw yn ein harwain ni i gyd". Teimlai Nigel y dylai fynd i eglwys a dyma fe'n troi i fewn i gapel lleol un Sul, lle cafodd groeso cynnes.

> Roedd yna ryw awyrgylch... edrychon ni'n ôl a gweld y ffigyrau yma o gwmpas y groes

"Dim ond cynulliad bach oedd yno, ond daeth yn rhywbeth wnes i - jest llithro i mewn yn y cefn i ddechrau ac yna cymryd rhan. Roedd Duw wedi fy arwain i yno."

Cwpl o flynyddoedd yn ddiweddarach ac roedd newid amgylchiadau yn golygu ei bod hi'n bryd iddo symud i Nebo ym mhentref Cefn Cribwr gerllaw. "Roedd yr eglwys wedi cael amser garw gyda'u gweinidog bryd hynny, ond roedd yna fendith yn ein disgwyl ni fel teulu yno.

Dechreuodd fy Nhad ddod yn ôl i'r eglwys am y tro cyntaf ers degawdau, a fy ngwraig hefyd." Ac yna yn 2021, gofynnwyd i Nigel gan yr aelodau a

fyddai'n ystyried dod yn weinidog lleyg i'r eglwys.

"Roeddwn i mewn gwiri--onedd wedi cael y teimlad cynyddol yma o alwad, wedi bod yn gweddïo llawer ac wedi dechrau mynd i bregethu yng nghapeli eraill y Bedyddwyr yn yr ardal hefyd. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno cefais fy ordeinio, a dwi bellach yn dilyn cwrs gweinidogaeth yng Ngholeg y Bedyddwyr.

> “Dwi eisiau cyrraedd pobl gyda’r efengyl”

I fi, nawr, mae'n fater o gadw pethau yn real. Dim ond pobl gyffredin ydyn ni, ond weithiau gallwn ni wneud pethau anghyffredin yn nerth Duw. Roedd yr eglwys fach hon wedi cael cyfnod anodd ac roedden nhw wedi dod i ryw ddyffryn du yn ei hanes. Roedden nhw heb weinidog ers yr un blaenorol a doedd hi ddim yn glir sut y bydden nhw'n cael un arall. Yna, daeth Duw â fi o bawb atyn nhw – ac erbyn hyn mae ’na gynhesrwydd go iawn rhyngom ni i gyd yn yr eglwys."

Eglura fod ei weledigaeth yn eithaf syml; "Dwi eisiau cyrraedd pobl gyda'r efengyl - dyna pam dwi'n rhoi negeseuon ar Facebook, ac fe fydd pobl - dynion digon caled weithiau – yn ymateb neu’n hoffi beth dwi'n ei roi allan. Gall hynny fod yn syndod! Mae'r un peth pan fydda i’n cael cais i gymryd angladdau. Rwy'n dweud wrth bobl y byddaf yn gweddïo a rhannu'r ffydd Gristnogol a bydd pobl yn dweud eu bod yn hapus gyda hynny. Dwi'n credu bod gyda ni alwad – a’r alwad yw i fynd allan i bobl sy'n stryglo, sy'n anghenus, ac i wneud hynny gyda’r efengyl.

# CERDDED! Talentau Gobaith

cymorth cristnogol

**Her maint Cymru - a thu hwnt! - dyma Sioned Graves yn adrodd hanes her CERDDED! Cymru & Zimbabwe sydd yn rhan o’n hapêl ar gyfer 2023-24...**



**Gyda hwyliau da y cychwynnodd pump o staff Undeb Bedyddwyr Cymru o’r Llwyfan ar brynhawn gwlyb ym mis Mawrth.** Yn gwisgo crysau coch llachar Cymorth Cristnogol yn erbyn cymylau llwyd Sir Gâr, ein hamcan oedd cerdded ychydig o filltiroedd ar hyd yr Afon Tywi i godi ymwybyddiaeth ar gyfer apêl Talentau Gobaith 2023-24.

Yn anffodus, roedd yn rhaid ail-gyfeirio’r daith o ganlyniad i lifogydd y bore hwnnw, rhywbeth a’n hatgoffodd ni o realiti Newid Hinsawdd ar gyfer nifer o gymunedau ar draws y byd. Serch hynny, fe wnaethom ni lwyddo cwblhau 15 milltir ar y cyd!

Bwriad ein taith gerdded yng Nghaerfyrddin oedd i lawnsio her CERDDED! Cymru a Zimbabwe, ac i godi ymwybyddiaeth ar gyfer ein hapêl, **Talentau Gobaith.**

Mae Talentau Gobaith, a enwyd ar ôl Dameg y Talentau (Math 25:14-30), yn cefnogi cymunedau yn Zimbabwe sydd yn gweld llaw Duw ar waith wrth iddyn nhw fuddsoddi eu ‘talentau’ i ddulliau amaethyddol cynaliadwy.

Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda’r cymunedau hyn trwy brosiect BRACT yn rhanbarth Mutoko a Mudzi.

Mae Newid Hinsawdd wedi gwneud bywyd yn anodd iawn ar gyfer ffermwyr ar draws y byd. Mae hyn yn enwedig o wir yn Zimbabwe, sydd wedi gweld cynnydd mewn llifogydd, stormydd a sychderau, ac sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod swyddogol o sychder. Mae hyn yn erbyn cefndir ehangach o dlodi, gyda blynyddoedd o ansefydlogrwydd gwleidyddol, troseddau yn erbyn hawliau dynol, ac economi gwan, i gyd yn cyfrannu at statws Zimbabwe fel un o wledydd tlotaf y byd.

> “Mae prosiect BRACT... wedi helpu nifer o deuluoedd i ddod yn fwy gwydn.”

Trwy hyfforddiant mewn dulliau ffermio gwahanol, mae prosiect BRACT yn Zimbabwe wedi helpu nifer o deuluoedd i ddod yn fwy

*(parhad dros y dudalen...)*

# NEWYDDION ar draws

UBC
BUW

## Her Maint Cymru - a Zimbabwe!

*(parhâd o dudalen 5)* ...gwydn yn erbyn effeithiau Newid Hinsawdd a chaledi economaidd, yn ogystal â'u helpu i amrywio eu ffynonellau incwm, gan eu gwneud yn llai dibynnol ar amaethyddiaeth sydd yn gallu cael ei heffeithio gymaint gan dywydd eithafol.

Amcan ein taith yng Nghaerfyrddin ar y prynhawn Mawrth hwnnw oedd i godi ymwybyddiaeth ar gyfer prosiect BRACT, ac i lawnsio ymgyrch newydd – **CERDDED! Cymru & Zimbabwe** – er mwyn cefnogi eu gwaith yn Zimbabwe. Bydd yr ymgyrch yn rhedeg o fis Mawrth tan fis Hydref 2024, ac rydym ni'n galw ar deulu'r Bedyddwyr – a thu hwnt! – **i ymuno â ni** wrth i ni gerdded y nifer o filltiroedd y byddai'n eu cymryd i groesi hyd Cymru a Zimbabwe gyda'i gilydd (oddeutu 750 o filltiroedd).

Mae'r her yn syml... **CERDDWCH!**

Mae hon yn ffordd bwerus i **'uno ein camau' mewn ffordd ffisegol a symbolaidd** gyda chymunedau yn Zimbabwe, ac i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. Rydym yn galw ar **ein heglwysi, aelodau a chymunedau** i ymuno â ni... gallai hyn edrych fel taith gerdded unigol un penwythnos o Wanwyn, taith gerdded fel eglwys ble fyddwch chi'n cyfri cyfanswm eich milltiroedd cyfunol, neu daith gerdded arferol sydd yn cael ei throi yn daith weddi ar gyfer Zimbabwe. Sut bynnag y dewiswch ymuno, mae pob milltir yn cyfri, ac mae angen help teulu'r Bedyddwyr i gyrraedd ein targed!

*Ystyriwch os gallwch chi ymuno â'r her CERDDED! (neu annog eraill i ymuno), gan ddarganfod mwy yma: ubc.cymru/cenhadaeth-cefnogol/apeliadau/cerdded-cymru-a-zimbabwe/*



***Her Maint Cymru a Zimbabwe:*** *Mae Blessings Muzori ymhlith y rheiny sydd wedi eu helpu yn fawr gan brosiect BRACT, a mae hi nawr yn aelod parchus o fusnes lleol.*

## Croeso i deulu UBC!





**Rydym ni'n falch iawn i groesawu enwau a wynebau newydd i deulu UBC ar gyfer 2023/24...**

Yn gyntaf, croeso i Dorithy Evans, a dderbyniwyd fel gweinidog yn Smyrna, Penyfai yn 2023. Yn 2024, estynnwn groeso i Anth Brown (chwith), a sefydlwyd yn swyddogol yn Mount Zion, Aberteifi yn mis Ionawr. Mae Anth yn wreiddiol o'r DU, ond bu'n gweinidogaethu am 24 blynedd yng Nghanada, sydd yn golygu mai Anth yw'r ail weinidog o Ganada y mae Mount Zion wedi ei groesawu! Bydd Andy Settattree yn cael ei groesawu yn fuan i Hope Gobaith Llanelli, gyda gwasanaeth sefydlu i'w gynnal ar Fehefin y 1af. Un arall o Lanelli - roeddem ni'n falch iawn i groesawu Elna Davies fel Gweinyddydd y Swyddfa ym mis Rhagfyr 2023 (tra bod Gwen Lye-Phillips ar gyfnod mamolaeth). Gweddïwn dros bob un wrth iddynt setlo i waith a galwedigaethau newydd!

# Cynadleddau Haf 2024

Bydd **cynhadledd Gymraeg yr Undeb** yn digwydd yn Sir Benfro eleni, ar y 23ain - 26ain o Fehefin: rydym ni'n gyffrous ar gyfer pedwar diwrnod o gymdeithas, mawl, gweithgareddau hwyl gyda'n gilydd, ac ystyried y thema 'Adeiladaf fy Eglwys - i gyd ym mro Dewi hardd! Gallwch ddarganfod mwy yma: ubc.cymru/undeb-2024-sir-benfro/

Bydd **ein cynhadledd 'Momentum'** (iaith Saesneg) yn digwydd yng Nghaerfyrddin unwaith eto eleni. Ymunwch â ni ar yr 8fed o Fehefin ar gyfer diwrnod 'deinamig' i'r holl deulu wrth i ni ystyried geiriau bywiol Duw mewn byd newidiol! Bydd Esgyn yn rhedeg ffrwd ar gyfer ieuenctid, a bydd gwaith plant. Manylion yma**:** buw.wales/momentum-2024/




# Wcráin: Eglwysi yn tyfu mewn gobaith

**Mae eglwysi yn dod at ei gilydd mewn ffordd ryfeddol, ddwy flynedd ar ôl dechrau'r rhyfel yn Wcráin.**



Fe wnaeth Igor Bandura, Dirprwy Bennaeth Undeb Bedyddwyr Wcráin adrodd i Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF) sut yr 'adnewyddwyd nerth Duw ynom ni... dros ddwy flynedd,", yn ystod cyfnod o frwydro ffisegol ac ysbrydol. "Yn 2022, roedd hi'n ymddangos i ni na fydden ni'n gallu dyfalbarhau am fwy nag ychydig wythnosau," meddai Igor. "Ond mae'r Arglwydd yn ein dal ni. Bob dydd, mae'n dangos Ei wyrthiau eto ac eto ar y blaen, ac yn y cefn.

Un wyrth yw'r twf a welwyd ar draws yr eglwysi. Mae'r rhwydwaith Bedyddiedig mae Igor yn rhan ohono wedi gweld 10 o eglwysi newydd yn cael eu plannu, 50 o grwpiau cenhadol newydd, a 130 o gaplaniaid newydd wedi eu cysegru. Er gwaethaf ofn ffrwydradau, mae poblogrwydd gwersylloedd i blant a chanolfannau gofal dydd wedi tyfu, mae gweinidogaeth i'r rhengoedd blaen wedi parhau, ac mae miloedd wedi dod i ffydd. Mynna Igor na fyddai hyn wedi digwydd heb gefnogaeth eglwysi Wcráin, ac anogaeth brodyr a chwiorydd teulu'r Bedyddwyr ar draws y byd.

# NEWYDDION ar draws *y byd*

## Chwiorydd Cymru yn Riga!

**Ar y 5ed-8fed o Hydref y llynedd, fe wnaeth Ruth Davies ac Eleri Jones gynrychioli UBC ymhlith cant o chwiorydd Bedyddiedig** o 30 o wledydd yn Riga, ar gyfer 75ain Cynhadledd Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop. Thema'r gynhadledd oedd 'Heddwch heb ei ail' o Philipiaid 4:7. Am y tro cyntaf eleni, cafodd Arlywydd o'r Dwyrain Canol ei hethol, Siham Daoud. Wrth glywed am dystiolaeth a gweinidogaeth Chwiorydd ar draws Ewrop, cafodd gwerth a dylanwad posib cymdeithasau'r Chwiorydd ar draws Ewrop ei sylweddoli o'r newydd.

## Y Dwyrain Canol: Goleuni yng nghanol y tywyllwch

**Fe wnaeth EBF adrodd yn ddiweddar am y boen aruthrol, ond hefyd brofiadau o bresenoldeb real yr Arglwydd ymhlith brodyr a chwiorydd Bedyddiedig yn y rhyfel yn Israel-Gaza. '**Rydym ni wedi wynebu... distryw, ac anobaith ofnadwy... Ac eto, yng nghanol y treialon hyn, mae nerth yn dod trwy ein ffydd yn ein Harglwydd... a thrwy anogaeth [ein brodyr a chwiorydd yng Nghrist],' rhannodd un arweinydd. Mae rhai gweinidogaethau wedi adrodd hefyd am brofiadau o 'ymyrraeth wyrthiol ddwyfol - ac adroddiadau o Grist ei Hun yn ymddangos mewn gweledigaethau a breuddwydion... i frodyr a chwiorydd Mwslemaidd yn Gaza.' Mae Duw yn rhoi nerth a gobaith i nifer yng nghanol realiti 'dorcalonnus' rhyfel.

# *Dod i adnabod...* Rob Saunders



Cawsom ni'r llawenydd yn ddiweddar o glywed rhai o'r straeon hyfryd arweiniodd Rob Saunders i Gymru, a sut mae Duw yn gweithio yn y Trallwng...

**Diolch am gael sgwrs gyda ni, Rob! O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol, a sut wnaethoch chi eich darganfod eich hunain yn y Trallwng?**

Ces i fy ngeni yn Nottingham, fy magu yn Crewe, ac yna fe wnes i setlo yn Malvern, ble roedd fy nhad yn weinidog. Am sbel, dyna'r peth olaf roeddwn i am fod! Ar ôl gradd yn Archeoleg, a gyrfa fer yn TG, dywedais i 'ie' i alwad Duw, a symudais i a fy ngwraig i Gymru i ddechrau hyfforddi. Derbyniais i fy ngradd yng Nghymru, a ches i fy ordeinio yn Lloegr – dwi'n cofio rhywun yng Ngholeg y Bedyddwyr yn rhoi gair proffwydol i fi am faner Lloegr a Chymru – yn y pen draw, roedd y gair hwnnw'n addas iawn...

Fe wnaethom ni ein darganfod ein hunain yn y Trallwng, ar ôl gweinidogaethau yn fy eglwys lawn-amser gyntaf yng Fforest y Ddena. Tra'n bod ni yn y Fforest, synhwyron ni alwad yn ôl i Gymru, ac yn benodol i Ganolbarth Cymru. Roedd Eglwys y Bedyddwyr y Trallwng yn gwybod amdanaf fi o'r cyfnod hyfforddiant. Roeddwn i'n gwybod amdanyn nhw, ac fe ddaeth Duw â ni i gyd at ein gilydd. Dyna'r alwad cliriaf i bobl benodol, ac i le penodol i ni erioed ei theimlo.

**Gwych! Sut ydych chi wedi gweld Duw ar waith yn eich hanes?**

Roedd Duw ar waith yn yr alwad yma i Baradwys... sori, y Trallwng dwi'n ei feddwl! O'r cyfarfodydd cyntaf, i ddarpariaeth llety trwy UBC, i arian grant, roeddem ni'n gallu gweld Ei law yn ein harwain ni i gyd, er nad oedd yn llwybr cyflym na hawdd. Mae unrhyw aberth ar ein rhan ni o hyd wedi'i ragori gan ddarpariaeth Duw ar ein cyfer ni – roedd yna lwybrau haws i'n teulu ddilyn, ond fyddai r'un ohonyn nhw wedi ein cymryd ni i le ac eglwys yr ydym ni'n teimlo mor gartrefol ynddyn nhw.

Byswn i'n annog i unrhyw un sydd yn ystyried newid mawr yn eu bywydau, i ymddiried yng nghynllun hir-dymor Duw – peidiwch byth ag anelu am lwyddiant byr dymor dros ben 'hir-alwad' Duw – yn fy mhrofiad mae e'n chwarae'r 'long game', ac felly hefyd y dylwn ni.

**Beth ydych chi'n credu sydd gan Dduw ar ei galon ar gyfer y Trallwng, ac ar gyfer Cymru yn y blynyddoedd sydd i ddod?**

Ar gyfer ein heglwys ni, rydw i'n credu Ei fod E'n ein galw ni i fod yn gymuned wydn, gynaliadwy, fywiog o ddisgyblion sydd yn tyfu ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymuned er ffyniant Teyrnas Dduw. Mae Eseia 12:3 yn dweud wrthym..

"Byddwch yn codi dŵr yn llawen
o ffynhonnau achubiaeth."

Mae hwn yn air ar gyfer ein heglwys lawn llawenydd!

Ar gyfer Cymru – rydw i'n synhwyro bod newid yn y llanw, arwyddion o obaith yn dechrau blodeuo ar ôl blynyddoedd o waith ffyddlon, hyd yn oed yng nghanol naratif ehangach o ddirywiad. Rydw i wir yn credu y bydd Teyrnas Dduw yng Nghymru yn tyfu yn ddwyieithog, ac y bydd eglwysi Cymraeg a Saesneg eu hiaith (ac eraill!) yn cael eu denu at ei gilydd mewn i rywbeth arbennig. Rydw i'n araf yn dysgu Cymraeg yn nisgwyliad yr amser pan fydd 'pob cenedl, llwyth, pobl ac iaith' yn cael eu croesawu i'r dyfodol hwn.

***Diolch yn fawr, Rob!***